

Beth sydd yn eich gardd?

Mae'ch gardd yn llawn bywyd o bob rhyw. Mae hynny'n wir ni waeth maint eich gardd neu faint o wyrddni sydd ynddi. Defnyddiwch y canllawiau hyn i ddod o hyd i'r bywyd gwyllt sydd gennych ar flaenau'ch bysedd a'i adnabod.



Cynllun Gwyddoniaeth
i Ysgolion
Prifysgol Abertawe



Prifysgol
Abertawe
Swansea
University



Cronfa Gymdeithasol Ewrop
European Social Fund

(S4) a ariennir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop a Llywodraeth Cymru


Amffibiaid Anhygoel

Os ydych chi'n ddigon ffodus i gael pwll yn eich gardd chi (neu ardd eich cymydog), efallai y byddwch chi'n gweld rhai o'r rhain yn crwydro gerllaw. Os na, rhowch gynnig ar greu eich pwll bach eich hun gyda'r Ymddiriedolaeth Bywyd Gwylt!



Cynllun Gwyddoniaeth
i Ysgolion
Prifysgol Abertawe

Penbyliaid



Mae pob amffibiad yn y DU yn dodwy wyau mewn dŵr cryow (meddylwch am rifft brogaod) tua mis Mawrth. Mae'r wyau hyn yn deor i fod yn benbyliaid ym mis Ebrill. Mae penbyliaid wedi addasu i fywyd dan y dŵr, gyda nodweddion megis tegelli a chynffonau! Erbyn mis Mehefin, mae penbyliaid yn colli'r nodweddion hyn ac yn tyfu ysgyfaint, coesau ac esgyrn wrth iddynt drawsffurfio (newid) yn araf i fod yn oedolion. Mae penbyliaid brogaod a llyffantod yn llysorsion (maent yn bwyta planhigion) ond mae penbyliaid madfallod y dŵr yn gigfwytaol (maent yn bwyta cig) ac mae eu deiet yn newid i gyd-fynd â deiet oedolion wrth iddynt dyfu.

Y Broga Cyffredin



Mae pob amffibiad yn y DU yn dodwy wyau mewn dŵr cryow (meddylwch am rifft brogaod) tua mis Mawrth. Mae'r wyau hyn yn deor i fod yn benbyliaid ym mis Ebrill. Mae penbyliaid wedi addasu i fywyd dan y dŵr, gyda nodweddion megis tegelli a chynffonau! Erbyn mis Mehefin, mae penbyliaid yn colli'r nodweddion hyn ac yn tyfu ysgyfaint, coesau ac esgyrn wrth iddynt drawsffurfio (newid) yn araf i fod yn oedolion. Mae penbyliaid brogaod a llyffantod yn llysorsion (maent yn bwyta planhigion) ond mae penbyliaid madfallod y dŵr yn gigfwytaol (maent yn bwyta cig) ac mae eu deiet yn newid i gyd-fynd â deiet oedolion wrth iddynt dyfu.

Y Llyffant Dafadennog



O bob llyffant y DU, rydych chi'n fwyaf tebygol o ddod o hyd i Llyffant Dafadennog yn eich gardd. Chwiliwch am groen sych, lliw melynffrown tociog a choesau byr, sy'n addas i gropian yn hytrach na neidio. Maent yn dodwy eu grifft fel cadwyni hir, unfurf (fel cadwyn o gleiniau) yn y gwanwyn. Mewn gwirionedd, does dim gwahaniaeth gwyddonol go iawn rhwng brogaod a llyffantod! Mewn gwirionedd, mae llyffantod yn fath penodol o froga sy'n rhannu nodweddion penodol. Mae holl llyffantod y DU yn perthyn i'r teulu Bufonidae a brogaod i'r teulu Ranidae, sy'n helpu i wahaniaethu rhwng y ddau.

Y Fadfall Ddŵr Cyffredin



Mae pob amffibiad yn y DU yn dodwy wyau mewn dŵr cryow (meddylwch am rifft brogaod) tua mis Mawrth. Mae'r wyau hyn yn deor i fod yn benbyliaid ym mis Ebrill. Mae penbyliaid wedi addasu i fywyd dan y dŵr, gyda nodweddion megis tegelli a chynffonau! Erbyn mis Mehefin, mae penbyliaid yn colli'r nodweddion hyn ac yn tyfu ysgyfaint, coesau ac esgyrn wrth iddynt drawsffurfio (newid) yn araf i fod yn oedolion. Mae penbyliaid brogaod a llyffantod yn llysorsion (maent yn bwyta planhigion) ond mae penbyliaid madfallod y dŵr yn gigfwytaol (maent yn bwyta cig) ac mae eu deiet yn newid i gyd-fynd â deiet oedolion wrth iddynt dyfu.

Adar Anhygoel

Mae'n hawdd dod o hyd i adar. Rhowch ychydig o hadau adar (yn rhydd neu mewn bwydwr) ac arhoswch iddynt ymgynnull. Ewch i'r arfer o roi bwyd allan a bydd gennych ymwelwyr cyson ymhen dim!



Cynllun Gwyddoniaeth
i Ysgolion
Prifysgol Abertawe

Y Deryn Du




Mae'n hawdd adnabod y gwrywod gyda'u plu du pur a'u pigau oren llachar a chylchoedd o amgylch eu llygaid. Mae'r benywod yn fwy brown, gyda gwddf golau a brychau ar eu brest. Maent wrth eu boddau yn dynwared y synau o'u hamgylch, gan olygu bod eu canu yn tueddu i swnio fel larymau car! Yn ystod y tymor bridio (Ebrill-Awst), byddant yn ymladd â'i gilydd ar gyfer lle nythu, ond dyw hi ddim yn bersonol ac maent yn hapus i glwydo gyda'i gilydd yn y gaeaf.

Titw Tomos Las




Adar bach lliwgar ac ystwyth. Mae'n hawdd eu hadnabod gyda'u cap glas llachar. Yn y misoedd mwy cynnes, maent yn hoffi bwyta pryfed o frigau a sbrigau. Maent hefyd yn bwyta cnau a hadau ond dyw nhw ddim yn eu hoffi cymaint, ac maent yn eu bwyta pan na fydd pryfed ar gael fel arfer (yn enwedig dros y gaeaf). Wrth fagu eu cywion, maent yn dibynnu bron yn gyfan gwbl ar lindys gwyfod y gaeaf. Mae hyn mor bwysig, maent bob amser yn sicrhau eu bod yn dodwy eu hwyau fel y byddant yn deor pan fydd cyfoeth o lindys ar gael!

Turtur Dorchog



Aderyn golau, pincfrown gyda choler du nodweddiadol ar gefn eu gwddf (gan roi'r enw iddi). Maent yn perthyn yn agos i'r ysguthan ond ni cânt eu gweld mor aml. Wyddech chi nad oes gwahaniaeth gwyddonol rhwng tuturod ac ysguthanod? Rydym ni'n tueddu i hoffi'r tuturod yn fwy ond, mewn gwirionedd, maent yn rhan o'r un teulu o adar! Byddwch yn gweld tuturod torchog yn pecian ar y llawr o amgylch eich bwrdd adar, naill ai ar eu pennau eu hunain neu mewn pâr.

Nico bach



Byddwch yn sylwi ar y nico gyda'i wyneb coch llachar a'r darnau melyn ar ei adennydd. Eu hoff fwyd yw hadau o blanhigion pigog, megis ysgall, ond sut maent yn osgoi cael eu brifo? Mae eu pigau'n hir ac yn denau, gan eu galluogi i gyrraedd rhwng y pigau! Yn ffodus i ni, cânt eu gweld yn ymweld â byrddau adar a bwydwyr mewn gerddi yn gynyddol, felly cadwch lygad amdanynt. Gwnewch yn siŵr eich bod chi'n edrych yn y gwanwyn a'r haf oherwydd eu bod yn mudo mor bell â Sbaen ar gyfer y gaeaf.

Adar Anhygoel – Parhad

Mae'n hawdd dod o hyd i adar. Rhwch ychydig o hadau adar (yn rhydd neu mewn bwydwr) ac arhoswch iddynt ymgynnull. Ewch i'r arfer o roi bwyd allan a bydd gennyn ymwelwyr cyson ymhen dim!




Cynllun Gwyddoniaeth
i Ysgolion
Prifysgol Abertawe

Titw Mawr



Yn debyg iawn i'r titw tomos las, ond mae'r Titw Mawr yn fwy, mae ganddo gap du a llinell i lawr ei frest. Maent hefyd yn fwy tebygol o fwydo o'r tir ac maent yn hapusach yn bwyta cnau a hadau yn ystod y gaeaf. Wyddech chi, mai ond 1 o bob 10 o adar titw sy'n goroesi'r flwyddyn gyntaf y tu allan i'r nyth? Mae hyn yn swnio'n drist iawn ond mae'n gyffredin iawn ymhlith adar, ac oherwydd achosion naturiol gan amlaf. Heb ddigon o adar bach fel bwyd, byddai llawer o rywogaethau o ysglyfaethwyr yn marw o ddiffyg bwyd.

Llinos Werdd




Y mwyaf o llinosod y DU, gellir adnabod y llinos werdd diolch i'w phlu wyrddfrown a melyn. Yn ogystal, mae gan y benywod arlliw brownaid sy'n rhedeg i lawr ei phen a'i chefn. Mae llinosod gwyrdd wrth eu boddau'n bwyta hadau ond maent yn rhy drwm i'w bwyta'n syth o'r planhigion. Felly mae'n rhaid iddynt fwyta eu hadau o'r llawr yn lle. Yn drist, mae eu deiet yn dibynnu ar chwyn ac mae gordddefnyddio chwynladdwyr mewn ffermydd a gerddi'r dyddiau hyn wedi lleihau'r bwyd sydd ar gael iddynt.

Aderyn y To



Aderyn bach brown gyda brychau du i lawr ei chefn a phig byr a llydan. Yn ogystal, mae gan y gwryw goron lwyd ychwanegol a bib du. Mae'n bosib mai adar y to yw'r adar â'r berthynas agosaf â phobl, nawr a thrwy gydol hanes. Maent wrth eu boddau'n creu nythod yn ein hadeiladau ac o'u hamgylch a chânt eu gweld yn aml yn ein parciau a'n gerddi. Yn drist, mae niferoedd yn y DU wedi gostwng tua 71% ers y 1970au.

Ysguthan



Yn debyg iawn i'r golomen wyllt y byddwch yn ei gweld yng nghanol dinasoedd, ond nid oes gan yr ysguthan frest sgleiniog ei chyfnitheroedd yng nghanol y ddinas. Maent hefyd yn fwy ac yn oleuach o ran lliw, gyda darn gwyn ar ochr eu gwddf. Maent llawer yn rhy fawr i fwyta o fyrddau neu fwydwyr adar, felly mae'n rhaid iddynt becian ar y cnau a'r hadau sydd wedi cwmpo i'r llawr oddi danddynt. Maent yn hedfan yn lletchwith ac yn swnllyd ond maent yn cynhyrchu galwad cwynfan mwyn o frigau coed.

Mamaliaid Mawreddog

Pwy sydd ddim wrth ei fodd yn gweld creaduriaid pert a bach, ond mae'r rhan fwyaf dim ond yn dod allan gyda'r nos. Gall rhai fod yn brin iawn ond, os ydych chi'n gweld un ohonynt, rhoch ychydig o fwyd addas allan a byddwch yn gweld ymwelwyr sy'n dychwelyd ymhen dim.



Cynllun Gwyddoniaeth
i Ysgolion
Prifysgol Abertawe

Ystlumod



Mae ystlumod yn gyffredin iawn ond yn aml, fyddwn ni ddim yn eu gweld nhw oherwydd eu bod nhw'n dod allan pan fydd yn nosi, maent yn gyflym ac yn fach iawn ac maent yn tueddu i fyw mewn hen adeiladau, coedwigoedd cyntefig neu guddfannau creigiog. Mae 30 rhywogaeth o famaliaid yn y DU, ac mae 18 ohonynt yn ystlumod! Mae gweld y gwahaniaeth rhyngddynt yn anodd iawn heb eu trafod nhw â llaw (peidiwch â gwneud hyn - mae'n anghyfreithlon heb drwydded ac mae ystlumod yn fregus iawn) ond os ydych chi'n byw mewn ardal drefol neu fwrdeistrefol, rydych chi'n fwyaf tebygol o weld yr ystlum lleiaf, tra efallai y bydd preswylwyr yng nghefn gwlad hefyd yn gweld ystlumod adain-lydan ac ystlumod hirglust (yn y llun).

Y Draenog Ewropeaidd




Os ydych chi'n chwilio yn eich gardd gyda'r nos, efallai y byddwch chi'n dod o hyd i ddraenog neu ddau yn chwilo am wlioth a mwydod - ond byddant wrth eu boddau gyda phowlen o fwyd cathod! Wyddech chi fod poblogaeth draenogod y DU wedi gostwng mwy na 97% yn y 17 mlynedd diwethaf? Maent wedi colli llawer o'u cynefinoedd naturiol. Mae draenogod hefyd mewn perygl oherwydd y defnydd o blaladdwyr (cemegion sy'n cael eu chwistrellu ar blanhigion) i reoli plâu, megis gwlithod a phryfed. Os bydd draenogod yn bwyta'r plâu sydd wedi'u gwenwyno, maent hefyd yn bwyta'r plaladdwyr.

Gwiwer Lwyd



Y Wiwer Lwyd yw'r anifail rydych chi'n fwyaf tebygol o'i gweld yn eich gardd, yn enwedig os oes gennych chi hadau adar mewn lleoedd mae'n hawdd eu cyrraedd. Gellir eu hadnabod gyda'u blew llwyd a'u cynffon wrychog maent yn eu defnyddio i gydbwysu ar frig y coed. Mewn gwirionedd, rhywogaeth ymledol sy'n deillio o America yn y 1980au yw'r wiwer lwyd sydd wedi cystadlu gyda'r wiwer goch frodorol am fwyd a chynefinoedd ac wedi ennill. Maent yn dwlu ar gnau a hadau, ac maent yn claddu cyflenwad cyfrinachol ar gyfer y gaeaf maent yn anghofio amdano'n aml iawn, gan alluogi'r hadau i dyfu.

Llwynogod Coch



Mae llwynogod yn ymwelwyr rheolaidd iawn â'n gerddi, yn enwedig ar noson rhoi biniau allan! Mae'n anodd camadnabod y llwynog coch, gyda'i flew coch, ei glustiau pigfain a'i gynffon drwchus, hyd yn oed o bell. Mae gan y rhan fwyaf o drefi a dinasoedd y DU boblogaeth fawr, a gall eu hymddygiad a'u deiet amrywio yn ôl lleoliad. Er enghraifft, mae llwynogod ym Mryste'n dibynnu'n bennaf ar ddod o hyd i fwyd ymysg gwastraff bwyd dynol, ond mae llwynogod Llundain yn hela mamaliaid ac adar gwyllt yn bennaf. Maent yn addasu i bobl - mae pobl Bryste yn dwlu ar llwynogod, gan adael bwyd ar eu cyfer yn aml, ond mae preswylwyr Llundain yn eu hystyried i fod yn boendod.


Ymlusgiaid Anghredadwy

Mae ymlusgiaid yn rhyfeddol o gyffredin ond maent yn swil iawn, iawn ac yn tueddu i redeg i ffwrdd yr eiliad maent yn synhwyro bod pobl yn nesáu. Ond efallai byddwch yn eu gweld nhw'n torheulo ar garreg gynnes.




Cynllun Gwyddoniaeth
i Ysgolion
Prifysgol Abertawe

Gwiber




Gwiberod yw unig nadroedd gwenwynig y DU a chânt eu hadnabod yn hawdd gan y patrwm igam-ogam ar eu cefnau a'u llygaid coch. Maent yn ddirgel iawn ac mae'n well ganddynt dreulio eu hamser mewn rhostiroedd neu weunydd, i ffwrdd o bobl. Caiff eu gwenwyn ei ddefnyddio i barlysu madfallod a mamaliaid bychain maent yn eu hela ac, er ei fod yn boenus, yn anaml iawn y bydd yn farwol i bobl. Byddai'n llawer gwell gan wiberod lithro i ffwrdd o bobl, ac maent dim ond yn cnoi os ydynt yn teimlo eu bod nhw wedi'u maglu a does dim ffordd o ddianc. Y ffordd hawsaf o gael cipolwg arnynt yw pan fyddant yn torheulo ar garreg gynnes ym mis Mawrth, yn dilyn eu cyfnod yn gaeafgysgu.

Y Fadfall Gyffredin




Fel mae ei henw'n awgrymu, y Fadfall Gyffredin yw ymlusgiaid mwyaf cyffredin a niferus y DU. Maent yn amrywio o ran lliw, o lwyd i frown i ddu. Yn ogystal, mae gan y gwrywod fola lliwgar a llachar gyda smotiau tywyll, ond ochr waelod olau sydd gan y benywod. Wyddech chi y gall eu cynffon dyfu i hyd at ddwbl hyd eu cyrff? Ac nid yn unig hynny, gallant fwrw eu cynffon ar unrhyw adeg i dynnu sylw ysgyflaethwyr posib (peidiwch â phoeni, mae'n tyfu nôl). Yn wahanol i'r rhan fwyaf o ymlusgiaid, gall y benywod eni madfallod ifanc byw.

Neidr y Gwair



Gellir adnabod nadroedd y gwair drwy'r coler melyn y tu ôl i'w pen a'u lliwiau gwyrdd tywyll a brown. Dyma neidr fwyaf y DU ond does dim angen poeni. Maent yn gwbl ddiogel i bobl. Fel arfer, gellir dod o hyd iddynt mewn gwylptir neu laswelltir ond gellir hefyd eu gweld mewn gerddi, yn enwedig os oes pwll gerllaw. Gallant nofio i hela pysgod ac amffibiaid, sydd ymysg eu hoff ysglyfaethau. Mae benywod yn dodwy eu hwyau yng nghynhesrwydd llystyfiant sy'n pydru ac yn eu deori (sef eu cadw'n gynnes) nes iddynt ddeor yn yr hydref.

Y Neidr Ddefaid



Er gwaethaf ei golwg, nid yw'r neidr ddefaid yn neidr (a na, dyw hi ddim yn fwydyn chwaith) ond yn hytrach, yn fadfall ddigoesau. Efallai y byddwch chi'n meddwl mai'r un peth yw hynny, ond mae gan y neidr ddefaid ambell nodwedd sy'n ei rhoi'n gadarn yn y grŵp 'madfallod'. Mae ganddynt gennau mwy esmwyth, maent yn gallu bwrw eu cynffon ac mae ganddynt amrantau (ni all nadroedd amrantu). Yn ogystal, dyma'r ymlusgiad rydych chi fwyaf tebygol o'u gweld yn eich gardd – yn enwedig os oes gennych domen gwrtaith, lle maent wrth eu boddau yn hela gwlithod yn yr haf a gaeafgysgu yn y gaeaf.